

# Gwybodaeth i ddysgwyr

am wneud cais am apel cam 2 i CBAC

@CBAC_WJEC WWW.CBAC.CO.UK @CBACIFYFYRWYR @CBACWJEC

# Gwybodaeth i ddysgwyr am wneud cais am apel cam 2 i CBAC

## 1. Rhagarweiniad

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â'r broses apeliadau cam 2 ar gyfer y cymwysterau canlynol:

• TGAU, UG a Safon Uwch wedi'u cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru

• Tystysgrif Her Sgiliau

• Lefel 2 a Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

• Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (Uned 216)

Dylid cyfeirio at ddogfen y CGC Canllaw i brosesau apeliadau a chanllaw myfyrwyr, haf 2021 mewn perthynas â'r cymwysterau a ganlyn: Eduqas TGAU, Eduqas UG a Safon Uwch, Lefel 3 Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol, Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol, Project Estynedig, Lefel 1/2 Lladin, Lefel 2 Tystysgrif mewn Mathemateg Ychwanegol, Tystysgrif Lefel Mynediad.

Dylai canolfannau yng Ngogledd Iwerddon sydd hefyd yn dilyn cymwysterau UG a Safon Uwch CBAC gyfeirio at ganllawiau'r CGC.

Mae cyfres o ddogfennau canllaw wedi'u cyhoeddi gennym i fyfyrwyr am y broses adolygiad canolfannau ac apeliadau yn haf 2021 gan gynnwys y Canllaw i Fyfyrwyr a Ffeithlun. Hefyd, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru ganllaw Adolygiadau Canolfannau ac Apeliadau 2021. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth bwysig am y diffiniad o farn academaidd afresymol a'u Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau (EPRS) sef cam 3 y broses apeliadau yr haf hwn.

## 2. Sut i wneud cais am apêl cam 2

Os ydych chi'n dal i gredu bod gwall gyda'ch gradd a bennwyd gan y ganolfan pan fyddwch chi'n derbyn canlyniad eich adolygiad cam 1 gan eich canolfan, gallwch ofyn i'ch canolfan gyflwyno cais am apêl i CBAC ar ddiwrnod y canlyniadau neu wedi hynny. Rhaid i'ch canolfan gyflwyno'r cais. Dylech chi wneud y canlynol:

i) llenwi ffurflen Cais am Adolygiad Canolfannau ac Apeliadau sydd i'w chael yma.
ii) gwirio eich bod wedi llofnodi'r datganiad yn adran 2 (gall eich llofnod fod yn electronig neu'n ysgrifenedig). Mae llofnodi'r ffurflen fel hyn yn golygu eich bod yn cydsynio i ni gynnal apêl ac yn cadarnhau eich bod yn deall y gall eich gradd aros yr un fath, mynd i fyny neu fynd i lawr
iii) gofynnwch i'ch canolfan gyflwyno'r ffurflen ac unrhyw wybodaeth gefnogol arall sy'n berthnasol i'ch apêl i CBAC.

Ni allwch fynd ymlaen i Apêl Cam 2 os nad yw'r Adolygiad Canolfannau Cam 1 wedi'i gwblhau oni bai eich bod yn credu bod CBAC wedi gwneud gwall gweinyddol.

## 3. Terfynau amser cyflwyno ceisiadau

Mae'r terfynau amser i'ch canolfan gyflwyno'r apêl i CBAC yn y tablau isod. **Ni fydd apeliadau sy'n cyrraedd ar ôl y terfyn amser yn cael eu derbyn.**

**CBAC UG a Safon Uwch, Tystysgrif Her Sgiliau Uwch, Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau**

| | |
|---|---|
| Apeliadau Cam 2 blaenoriaethol lle nad enillodd dysgwr sy'n gwneud cais am addysg uwch ei brif ddewis (h.y. y cynnig a dderbyniwyd ganddynt fel dewis cyntaf) neu le ar brentisiaeth fodern uwch mewn perygl: | Ar gael o 10 Awst<br>Terfyn amser derbyn ceisiadau 5.00 pm 23 Awst |
| Apeliadau Cam 2 nad ydynt yn rhai blaenoriaethol: | Ar gael o 10 Awst<br>Terfyn amser derbyn ceisiadau 5.00 pm 17 Medi |

**CBAC TGAU, Tystysgrif Her Sgiliau Sylfaen a Chenedlaethol, Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau, Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (Uned 216)**

| | |
|---|---|
| Pob apêl Cam 2 | Ar gael o 12 Awst<br>Terfyn amser derbyn ceisiadau 5.00 pm 21 Medi.<br><br>Ni ellir dechrau prosesu ceisiadau am apeliadau TGAU tan ar ôl y terfyn amser ar gyfer apeliadau blaenoriaethol sef 23 Awst |

## 4. Sail dros apêl

Bwriad y broses apeliadau yw cywiro gwall a ddigwyddodd wrth gyrraedd eich canlyniad. Rhaid i chi ddarparu gwybodaeth glir a pherthnasol ar y ffurflen gais i esbonio'r gwall a sut rydych chi'n credu bod y gwall wedi effeithio ar eich gradd. Nid yw'r broses apeliadau yn gyfle i geisio gwella graddau sydd wedi'u pennu'n deg yn unol â gweithdrefnau'r ysgol neu'r coleg a ddogfennir ym mholisi'r ganolfan ac a gefnogir gan y dystiolaeth a'r cofnod gwneud penderfyniadau.

Gallwch ofyn am apêl ar sail y canlynol:

- Gwall gweinyddol yn y ganolfan (rydym yn disgwyl i'r rhan fwyaf o wallau gweinyddol, os nad pob un, gael eu cywiro yn ystod y cam adolygiad canolfannau).
- Ni wnaeth eich canolfan ddilyn ei gweithdrefnau yn briodol nac yn gyson wrth gyrraedd eich canlyniad, neu wrth gynnal adolygiad y ganolfan (cam 1). Mae'r Polisi Canolfan yn dogfennu gweithdrefnau eich canolfan. Gallwch chi ofyn am gopi o'r polisi os nad ydych chi wedi derbyn un yn barod.
- Ni chafodd trefniadau mynediad nac ystyriaeth arbennig eu defnyddio na'u hystyried wrth bennu eich canlyniad, lle y bo'n berthnasol.
- Barn academaidd afresymol
- Gwnaeth CBAC wall wrth brosesu neu gyfleu'r radd (dim ond os yw'r radd a bennwyd gan y ganolfan dros dro a gyhoeddwyd gan y ganolfan yn wahanol i'r radd a gyhoeddwyd gan CBAC y mae hyn yn berthnasol).

Ar y ffurflen gais, dylech ddewis y sail (seiliau) sy'n berthnasol i'r apêl. Mae'r tabl isod yn rhoi cyngor pellach ar beth yw ystyr pob sail dros apêl.

Os ydych chi'n dewis mwy nag un sail, bydd yn cymryd mwy o amser i ystyried y cais a phenderfynu ar y canlyniad.

| Sail dros apêl | Beth mae hyn yn ei olygu | Gwybodaeth y byddwn ni'n ei hadolygu |
|---|---|---|
| Gwall gweinyddol – Gwnaeth y ganolfan wall gweinyddol | Pan fyddwch yn dewis hyn, rydych chi'n dweud wrthym eich bod yn credu bod y ganolfan wedi gwneud gwall wrth roi eich gradd i mewn yn system CBAC.<br><br>Bydd aelod annibynnol o staff yn CBAC sydd wedi derbyn hyfforddiant yn adolygu'r apêl.<br><br>. | Byddwn yn adolygu'r pwyntiau a wnewch ac yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gan eich canolfan ar:<br>• eich ffurflen gais<br>• ymateb eich canolfan i'r cais am adolygiad gan y ganolfan (cam 1)<br>• eich Cofnod Gwneud Penderfyniadau Dysgwr (lle y bo'n berthnasol)<br>• gwybodaeth arall yr ydych chi neu eich canolfan wedi'i darparu (lle y bo'n berthnasol). |
| Gwall gweithdrefnol – Ni wnaeth eich canolfan ddilyn ei gweithdrefnau'n briodol ac yn gyson wrth benderfynu ar eich canlyniad, neu wrth gynnal adolygiad y ganolfan. | Pan fyddwch yn dewis hyn, rydych chi'n dweud wrthym eich bod yn credu bod eich canolfan wedi gwneud gwall gyda'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i bennu eich gradd. Nid dyma'r dystiolaeth y dywedwyd wrthych y byddai'n cael ei defnyddio i bennu eich gradd ac nid yw'r gwahaniaeth yn y dull gweithredu wedi'i esbonio yn eich cofnod gwneud penderfyniadau. | Byddwn yn adolygu'r pwyntiau a wnewch ac yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gan eich canolfan ar:<br>• eich ffurflen gais<br>• ymateb eich canolfan i'r cais am adolygiad gan y ganolfan (cam 1) |

| | | |
|---|---|---|
| | Yn eich barn chi, ni wnaeth eich ganolfan ddilyn gweithdrefn yn gywir ac yn gyson (yn ôl yr hyn a ddogfennwyd yn y polisi canolfan), ac/neu wrth gynnal adolygiad y ganolfan (cam 1).<br><br>**Rydych chi'n apelio yn erbyn y weithdrefn a ddilynwyd gan eich canolfan ac nid eu barn academaidd.**<br><br>Byddwn yn adolygu gweithdrefn y ganolfan mewn perthynas â'r pwyntiau a wnewch ar eich ffurflen gais. Os ydym yn dod o hyd i wall, byddwn yn gofyn i'ch canolfan gywiro'r gwall hwnnw. Hefyd, bydd angen i'ch canolfan benderfynu a fydd y gwall hwn yn newid eich gradd.<br><br>Dim ond pan fydd eich canolfan wedi cadarnhau y dylai eich gradd newid oherwydd gwall gweithdrefnol y byddwn ni'n newid eich gradd.<br><br>Bydd aelod annibynnol o staff yn CBAC sydd wedi derbyn hyfforddiant yn adolygu'r apêl. | • eich Cofnod Gwneud Penderfyniadau Dysgwr<br>• Polisi eich Canolfan<br>• gwybodaeth arall yr ydych chi neu eich canolfan wedi'i darparu (lle y bo'n berthnasol). |
| Gwall gweithdrefnol – ni chafodd trefniadau mynediad neu ystyriaeth arbennig eu defnyddio na'u hystyried wrth bennu'r radd. | Pan fyddwch yn dewis y sail hon, rydych chi'n dweud wrthym eich bod wedi gwneud asesiad a gyfrannodd at eich gradd a bennwyd gan y ganolfan dros dro heb eich trefniant (trefniadau) mynediad cymeradwy neu os na ddarparwyd trefniadau mynediad nad oedd eich canolfan wedi ystyried hyn wrth bennu eich gradd a bennwyd gan y ganolfan dros dro.<br><br>Sail dros wall gweithdrefnol yw hwn. Os ydym yn dod o hyd i wall, byddwn yn gofyn i'ch canolfan gywiro'r gwall hwnnw. Hefyd, bydd angen i'ch canolfan benderfynu a fydd y gwall hwn yn newid eich gradd.<br>Dim ond pan fydd eich canolfan wedi cadarnhau y dylai eich gradd newid oherwydd gwall gweithdrefnol y byddwn ni'n newid eich gradd.<br><br>Bydd aelod annibynnol o staff yn CBAC sydd wedi derbyn hyfforddiant yn adolygu'r apêl. | Byddwn yn adolygu'r pwyntiau a wnewch ac yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gan eich canolfan ar:<br>• eich ffurflen gais<br>• ymateb eich canolfan i'r cais am adolygiad gan y ganolfan (cam 1)<br>• eich Cofnod Gwneud Penderfyniadau Dysgwr<br>• Polisi eich Canolfan<br>• gwybodaeth arall yr ydych chi neu eich canolfan wedi'i darparu (lle y bo'n berthnasol). |
| Gwall gweithdrefnol – Ni chafodd trefniadau mynediad neu ystyriaeth arbennig eu defnyddio na'u hystyried wrth bennu'r radd. | Pan fyddwch yn dewis hyn, rydych chi'n dweud wrthym nad yw eich canolfan wedi ystyried afiechyd neu ddigwyddiad arall y tu hwnt i'ch rheolaeth wnaeth effeithio ar eich perfformiad. Fel yr esboniwyd yn y ddogfen Canllaw'r CGC i'r broses Ystyriaeth Arbennig, mae'n rhaid i'r digwyddiad fod wedi digwydd ar y pryd, neu o fewn cyfnod byr, i'r asesiad a ddefnyddiwyd i gyrraedd eich canlyniad. | Byddwn yn adolygu'r pwyntiau a wnewch ac yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gan eich canolfan ar:<br>• eich ffurflen gais<br>• ymateb eich canolfan i'r cais am adolygiad gan y ganolfan (cam 1)<br>• eich Cofnod Gwneud Penderfyniadau Dysgwr<br>• Polisi eich Canolfan |

| | | |
|---|---|---|
| | Sail dros wall gweithdrefnol yw hwn. Os ydym yn dod o hyd i wall, byddwn yn gofyn i'ch canolfan gywiro'r gwall hwnnw. Hefyd, bydd angen i'ch canolfan benderfynu a fydd y gwall hwn yn newid eich gradd.<br>Dim ond pan fydd eich canolfan wedi cadarnhau y dylai eich gradd newid oherwydd gwall gweithdrefnol y byddwn ni'n newid eich gradd.<br><br>Bydd aelod annibynnol o staff yn CBAC sydd wedi derbyn hyfforddiant yn adolygu'r apêl. | • gwybodaeth arall yr ydych chi neu eich canolfan wedi'i darparu (lle y bo'n berthnasol). |
| Barn academaidd – Roedd y farn wrth bennu'r radd yn afresymol | Pan fyddwch yn dewis hyn, rydych chi'n dweud wrthym fod y dystiolaeth a ddefnyddiwyd gan y ganolfan i bennu eich gradd yn unôl â'r hyn yr oeddech yn ei ddisgwyl. Rydych chi'n credu bod barn y ganolfan yn afresymol mewn perthynas â'r disgrifyddion graddau cyhoeddedig.<br><br>Gallech chi ddewis hyn, os ydych chi'n credu na chafodd eich gradd ei phennu'n wrthrychol yn seiliedig ar y dystiolaeth yn unig ond bod tuedd neu wahaniaethu wedi dylanwadu arni.<br><br>Byddwn yn adolygu'r dystiolaeth mewn perthynas â'r pwyntiau a wnewch a byddwn yn ystyried a yw barn y ganolfan yn afresymol.<br><br>Dim ond os yw gradd ymhell y tu hwnt i ffiniau barn academaidd resymol y caiff ei hystyried yn afresymol. Nid yw'r dystiolaeth, yn rhesymol, yn gallu cefnogi'r radd a ddyfarnwyd<br><br>Os ystyriwn fod y radd yn afresymol, bydd CBAC yn newid y radd.<br><br>Adolygydd Annibynnol a benodwyd ac a hyfforddwyd gan CBAC fydd yn pennu'r radd. | Byddwn yn adolygu'r pwyntiau a wnewch ac yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gan eich canolfan ar:<br>• eich ffurflen gais<br>• ymateb eich canolfan i'r cais am adolygiad gan y ganolfan (cam 1)<br>• eich Cofnod Gwneud Penderfyniadau Dysgwr<br>• Polisi eich Canolfan<br>• y dystiolaeth y defnyddiodd eich canolfan wrth bennu eich gradd<br>• gwybodaeth arall yr ydych chi neu eich canolfan wedi'i darparu (lle y bo'n berthnasol). |
| Gwall gweinyddol – gwall CBAC, mae'r radd a gyhoeddwyd ar ddiwrnod y canlyniadau yn wahanol i'r radd ragarweiniol a gyhoeddwyd gan y ganolfan. | Pan fyddwch yn dewis hyn, rydych chi'n dweud wrthym ein bod wedi gwneud gwall o ran y radd a roddwyd i chi, gan ei bod yn wahanol i'r radd a anfonwyd atom gan eich canolfan.<br><br>Bydd aelod annibynnol o staff CBAC sydd wedi derbyn hyfforddiant yn adolygu hyn ac yn trafod â'r ganolfan. | Byddwn yn adolygu'r pwyntiau a wnewch ac yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gan eich canolfan ar:<br>• eich ffurflen gais<br>• gwybodaeth a ddarparodd eich canolfan yn cadarnhau'r radd a gyflwynwyd i ni. |

5. Sut a pha bryd y bydda i'n cael gwybod am ganlyniad yr apêl?

Byddwn ni, trwy eich canolfan, yn rhoi gwybod i chi beth yw canlyniad eich apêl. Pan fyddwch chi'n gofyn i'ch canolfan gyflwyno eich apêl, dylech holi sut byddan nhw'n rhoi gwybod i chi beth yw canlyniad yr apêl honno.

Byddwn ni'n anelu at gwblhau apeliadau Cam 2 o fewn 42 diwrnod calendr i dderbyn yr apêl gan eich canolfan. I fodloni terfyn amser UCAS, byddwn ni'n anelu at gwblhau apeliadau blaenoriaethol erbyn 7 Medi, ond mae'n rhaid iddynt fod wedi'u cyflwyno i ni erbyn 23 Awst. Os ydych chi wedi gofyn am apêl flaenoriaethol dylech ddweud wrth y darparwr addysg uwch o'ch dewis eich bod wedi gwneud cais am apêl.

6. Beth yw canlyniadau posibl yr apêl?

Mae'r wybodaeth yn y tabl isod yn amlinellu'r canlyniadau posibl a beth yw ystyr pob penderfyniad.

| Canlyniad | Beth mae hyn yn ei olygu |
|---|---|
| Ni dderbynnir yr apêl | Mae CBAC wedi canfod nad ydych chi wedi darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol ar y ffurflen gais ac felly nid yw'n bosibl ystyried eich apêl. Gallwch gyflwyno apêl newydd ond dim ond os ydych yn gwneud hynny cyn y terfyn amser ar y rhestr uchod. |
| Ni chadarnheir yr apêl | Mae CBAC wedi ystyried yr apêl ac wedi canfod na wnaed unrhyw wall yn y radd a ddyfarnwyd i chi. Bydd eich gradd yn aros yr un fath. |
| Mae apêl yn cael ei chadarnhau'n gyfan gwbl neu'n rhannol. | Mae CBAC wedi ystyried yr apêl ac wedi canfod bod gwall wedi'i wneud, yn gyfan gwbl fel y disgrifiwyd gennych, neu'n rhannol fel y disgrifiwyd.<br><br>Os oedd y farn wrth bennu eich gradd yn afresymol, yna byddai eich gradd yn mynd i fyny neu i lawr.<br><br>Os gwnaed gwall gweithdrefnol ond y gwall hwnnw heb wneud gwahaniaeth o bwys wrth gyrraedd eich canlyniad, ni fydd eich gradd yn cael ei newid.<br><br>Os gwnaed gwall gweithdrefnol sydd wedi gwneud gwahaniaeth o bwys wrth gyrraedd eich canlyniad, yna byddai eich gradd yn mynd i fyny neu i lawr.<br><br>Os nodir gwall gweinyddol, bydd y gwall hwnnw'n cael ei gywiro, a byddai eich gradd yn mynd i fyny neu i lawr. |

7. Beth dylwn i ei wneud os ydw i'n credu nad yw CBAC wedi dilyn ei weithdrefnau wrth ystyried apêl Cam 2?

Mae'n bwysig darllen y llythyr canlyniad y byddwn ni'n ei ddarparu ar gyfer eich canolfan, cyn gynted â phosibl.

Os ydych chi'n credu nad ydym wedi dilyn ein polisïau neu ein gweithdrefnau ein hunain wrth gynnal yr apêl, neu os nad ydym wedi cydymffurfio ag amodau rheoleiddiol Cymwysterau Cymru, gallwch gyflwyno cais i Wasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau (EPRS) Cymwysterau Cymru – cam 3 y broses apeliadau. Dim ond ar gyfer dysgwyr mewn canolfannau yng Nghymru ac ar gyfer cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru y mae'r Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau (EPRS) ar gael. Rhaid cyflwyno cais i'r Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau (EPRS) o fewn 20 diwrnod gwaith i dderbyn eich llythyr canlyniad.

## 8. Pa gyngor a chefnogaeth ychwanegol sydd ar gael?

Os na chawsoch y canlyniadau yr oedd eu hangen arnoch chi i symud ymlaen, gallwch siarad â'r ysgol, y coleg neu'r brifysgol. Efallai y byddan nhw'n eich derbyn chi o hyd neu efallai fod lleoedd ar gael o hyd ganddyn nhw ar gyrsiau perthynol.

Os oes angen unrhyw gefnogaeth o ran eich llesiant arnoch chi yna siaradwch ag unigolyn neu gorff y gallwch chi ymddiried ynddyn nhw. Byddan nhw'n gallu cynnig cefnogaeth, cyngor ac arweiniad i chi. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael ar wefan Comisiynydd Plant Cymru.